Yr Urdd – mae pedair sesiwn wedi eu cynnal dan ofal Louisa Phillips; Carwen Mai; Lowri Owen a Bethan Hughes (y darpar athrawon) ac aelodau o'r staff. Mwynhawyd gêmau, cwis a cadw'n heini. Bydd Nia Huw yn cynnal sesiwn drama cyn Hanner Tymor.

Rygbi'r Urdd – ar ôl yr holl ohirio oherwydd y tywydd drwg cynhaliwyd y chwarae o'r diwedd! Enillwyd un gêm, tair gêm yn gyfartal a cholli dwy gêm. Roedd pawb wedi joio mas draw!

Cafodd y merched hefyd gyfle i ddangos eu sgiliau pêl ym mhêl-droed pump bob ochr yr Urdd. Chwaraewyd chwech gêm. Enillwyd dwy gêm, tair gêm yn gyfartal a colli un gêm. Da iawn chi ferched!